



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

11 Rhagfyr 2020

9:00 am to 11:30 yb

Trwy gyfrwng MS Teams

Yn bresennol:	Teresa Owen (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Catherine Elaine Jones, Y Cyng. Bobby Feeley, Y Cyng. Christine Jones, Y Cyng. Joan Lowe, Y Cyng. Louise Emery, Y Cyng. Dilwyn Morgan (DMo) (yn mynychu ar ran Y Cyng. Dafydd Meurig), Ffion Johnstone (yn bresennol tan 10:00 am), Fon Roberts (yn bresennol tan 10:00 am), Helen Corcoran, Jenny Williams, John Gallanders (JGa), John Gladston (JGI), Judith Greenhalgh (JGr yn bresennol tan 10:00 am), Y Cyng. Llinos Medi Huws, Lucy Reid, Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Nicola Stubbins, Peter Williams, Shan Lloyd Williams
Ymddiheuriadau:	Alwyn Jones, Bethan E Jones, Clare Budden, Chris Stockport, Dr Lowri Brown, Estelle Hitchon, Kevin Roberts, Lynda Colwell, Mark Wilkinson, Rob Smith, Roma Hooper, Sam Parry, Steve Gadd
Hefyd yn bresennol:	Bethan Roberts, Archwilio Cymru (ar gyfer eitem agenda 3 yn unig)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i gyfarfod olaf 2020 a diolchodd i bawb am eu cymorth a'u hymroddiad drwy flwyddyn eithriadol o heriol yn 2020.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Bethan Roberts, Archwilio Cymru, sy'n arsylwi'r cyfarfod heddiw, yn arbennig eitem agenda 3.

Hysbysodd y Cadeirydd aelodau'r bwrdd o ymddiswyddiad diweddar CB o'r BPRhGC a chymerodd y cyfle i ddiolch i CB am y cymorth a'r cyfraniad i'r BPRh dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i LC am ei chymorth a'i gwaith ar y Bwrdd dros y 2 dymor diwethaf fel un o gynrychiolwyr y Trydydd Sector. Yn anffodus, nid oes modd i LC fynychu ei chyfarfod olaf heddiw.

Gweithredu: Anfonir llythyrau i ddiolch yn ffurfiol i CB a LC.

Eglurodd BJE na fu'r Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Gofalwyr yn llwyddiannus o ran recriwtio cynrychiolwyr gofalwyr newydd ar y BPRh. Mae'r BPRh yn ddiolchgar i PW sydd wedi cytuno i barhau fel cynrychiolydd Gofalwyr ar y BPRh hyd nes y gellir recriwtio cynrychiolydd newydd. Bydd y Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Gofalwyr yn cael ei gylchredeg unwaith eto.

Camau Gweithredu

- Anfon llythyrau at LC a CB – RW
- Cylchredeg y DoDd Gofalwyr – RW

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion 13.11.2020 yn gofnod cywir gyda'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3 Diweddariad ar y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal (GAlaG)

Derbyniodd y bwrdd diweddariad llafar gan JG ar waith y GAlaG.

Mae gwaith y GAlaG yn canolbwyntio'n bennaf ar y pandemig Covid-19 a chynllunio ar gyfer y gaeaf ar draws IaGC, ynghyd â'r allbynnau gan Gelloedd Data a Gwybodaeth, sy'n darparu diweddariadau lleol a chenedlaethol.

Hefyd, mae'r grŵp wedi dechrau trafod Fframwaith Adsefydlu LIC ar gyfer parhad ac adfer gwasanaethau. Bydd y GAlaG yn arwain ar y darn hwn o waith a ddatblygir drwy ystyried yr holl waith a gwblhawyd hyd yma ar draws y 4 grŵp o'r boblogaeth, gan ganfod unrhyw fylchau ac unrhyw waith pellach y mae angen ei ystyried. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau gan is-grwpiau sy'n bodoli eisoes, ac yn cael ei goladu a'i gyflwyno i'r BPRh yn y flwyddyn newydd.

Cododd Y Cyng. LIMH bryder ynghylch y defnydd o derminoleg, yn enwedig y defnydd o 'adfer' sy'n gamarweiniol o ystyried bod cyrff cyhoeddus yn parhau i ymateb i argyfwng y pandemig. Cwestiynwyd yn arbennig p'un a oedd teitl y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal yn briodol o ystyried bod ffigyrau Covid yn cynyddu ar hyn o bryd ledled Cymru, yn ogystal â ph'un a fyddai Archwilio Cymru (a oedd yn bresennol) yn feirniadol o hyn.

Cytunodd BR (AW) i basio'r ymholiad hwn i'r tîm a bydd yn adrodd yn ôl drwy e-bost.

Eglurodd JG y sefydlwyd y grŵp i ystyried y rhyngwyneb rhwng IaGC a chytunwyd ar y teitl yn ystod cynnal y Bwrdd Adfer cyffredinol, sef trefn a etifeddwyd o'r strwythur a roddwyd yn ei le yn ystod yr haf.

Roedd ME yn cytuno hefyd gan nodi bod Y Cyng. LIMH yn gwneud pwynt dilys. Roedd y cynnydd mewn Covid yn teimlo'n waeth o lawer a rhaid delio â phwysau'r gaeaf hefyd. Cynigiodd ME hefyd y gall fod yn fanteisiol i'r GALaG egluro ei waith, i osgoi rhoi'r argraff mai unig bwrpas y bwrdd oedd canolbwyntio ar adfer, ac roedd hefyd yn cefnogi y dylid cael eglurhad pellach o ran teitl y grŵp.

Cytunodd JG i basio'r sylwadau hyn ymlaen i'w hystyried gyda Chadeirydd y Grŵp Cydlynu Strategol.

Camau Gweithredu

- BR (AC) i adrodd yn ôl ar safbwynt AC ar deitl y grwp GALaG

4 Cynllun Brechu Torfol

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad llafar gan FJ ar y gwaith parhaus o ran y cynllun brechu torfol.

Eglurodd FJ bod cynlluniau gwaith yn eu lle bellach ac wedi'u derbyn gan LIC, a'u craffu gan dderbyn adborth cadarnhaol gan y lluoedd arfog. Rhannwyd y cynlluniau hefyd gyda Byrddau Iechyd eraill ac yn allanol gyda'r Grŵp Cydlynu Strategol.

FJ yw cadeirydd y Grŵp Technegol, gyda grwpiau eraill yn gyfrifol am agweddau eraill ar y cynllun; y model clinigol, y gweithlu, grŵp logisteg a grŵp diogelwch a chluant sydd hefyd yn cynnwys grŵp cyfathrebu ac apwyntiadau ac archebu.

Mae'r angen i fod yn hyblyg yn arbennig o bwysig i bob grŵp gan fod y canllawiau cynllunio a dderbynnir gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (CBIB) yn newid yn aml. Cynhelir cyfarfodydd dyddiol gyda LIC i drafod y sefyllfa bresennol ac mae'r brechlynnau wedi dechrau'n barod gyda bob Bwrdd Iechyd yn derbyn un pecyn o frechlynnau sy'n cynnwys 975 dos. O fewn ardal BIPBC, mae'r gwaith o'u cyflwyno wedi dechrau yn y Gogledd Ddwyrain gan mai yno y gwelwyd yr achosion mwyaf sylweddol o niferoedd Covid-19 cadarnhaol hyd yma.

Gweithwyr gofal a'r GIG a phobl dros 80 yw'r cyntaf i dderbyn y brechlyn. Mae cynllun peilot ar gyfer cartrefi gofal yn cael ei ystyried. Darperir diweddariad rheolaidd i'r holl Arweinwyr a'r Cynulliad.

Nododd MWim bod llawer o gwestiynau o ran sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnig cyflwyno'r brechlyn i weithwyr cartrefi gofal, a dywedodd gorau po fwyaf o gyfathrebu â'r sector. Er y cafwyd gwybod am gyhoeddiad pellach y disgwylir amdano heddiw ynghylch y peilot ar gyfer cartrefi gofal, ceir cryn drafferthion logistaidd, ynghyd â phryder, yn enwedig gan nad yw'r gwaith o frechu'r sector gofal yng Ngogledd Cymru wedi dechrau.

Nododd FJ y pwyntiau dilys o ran sicrhau bod cartrefi gofal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a gobeithir y bydd y trefniadau sydd i ddod yr wythnos nesaf yn tawelu pryderon y sector.

Gofynnodd JGal p'un a oedd galw am wirfoddolwyr i gynorthwyo yn y canolfannau brechu. Byddai'r trydydd sector yn gwerthfawrogi diweddariad ar hyn cyn gynted ag y bo modd.

Eglurodd FJ mai proses apwyntiadau a drefnir ymlaen llaw yw'r broses frechu ar gyfer Covid, nad yw ond ar gael drwy BIPBC ar hyn o bryd ac nid o fewn y gymuned ac mewn lleoliadau Meddygon Teulu. Nododd FH y byddai'r Grŵp Tactegol yn codi'r ymholiad o ran cefnogaeth gan y trydydd sector yn y cyfarfod sydd i'w gynnal prynhawn yma.

Gofynnodd Y Cyng. LE i gydweithwyr fod yn realistig o ran amseriadau'r rhestr o rai sy'n gymwys i gael y brechlyn ac roedd yn dadlau dros roi blaenoriaeth i weithwyr iechyd a rheng flaen. Holodd y Cyng. LE am y niferoedd dan sylw ynghyd ag atebolrwydd o ran pwy sy'n rheoli'r penderfyniadau.

Cadarnhaodd TO mai pwyllgor cenedlaethol y CBIB (JCVI), sy'n gweithredu ar ran y DU gyfan sy'n rheoli materion yn gyffredinol, nid yn unig yng nghyswllt canllawiau Covid ond hefyd holl frechiadau'r DU, ac mae'n cynghori'r Bwrdd Iechyd ynghylch holl agweddau canllawiau sy'n ymwneud ag iechyd.

Cynigiodd Y Cyng. JL y dylid cylchredeg cyfathrebiadau rheolaidd sy'n egluro bod angen i bawb ddisgwyl eu tro, a gofynnodd pryd y disgwylir y bydd cyflenwadau pellach yn cael eu derbyn.

Cytunodd FJ y bydd bwletin wythnosol yn hanfodol, bydd hyn yn cael ei gytuno yn y Grŵp Tactegol y prynhawn yma. Y Gymdeithas Cofrestru Meddygol sy'n rhyddhau'r cyflenwadau o'r brechlyn, ac er ei fod wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd o ran nifer y cyflenwadau, oherwydd gorfod addasu systemau a phrosesau, mae disgwylir y bydd cyflenwad rhesymol ar gael yn y rhanbarth.

Nododd Y Cyng. BF bwysigrwydd cysylltu â Meddygon Teulu fel y prif gyswllt â phreswylwyr, ac roedd yn deall y gallai unigolion eraill ar wahân i staff Meddygon Teulu roi'r brechlynnau. Mae angen bod yn glir hefyd and yw'r brechlyn yn addas i bobl a chanddynt alergeddau, a dylai unigolion ddisgwyl i frand arall o frechlyn fod ar gael.

Atebodd FJ bod BIPBC yn gweithio yn ôl fframwaith cyfreithiol ac mai dim ond gweithwyr proffesiynol cofrestredig sy'n gallu rhoi'r brechlyn. Mae rhaglen hyfforddi enfawr wedi sicrhau bod yr holl staff yn gymwys i roi brechlynnau. Mae Arweinydd Clinigol BIPBC eisoes wedi sicrhau cysylltiadau â Fferyllfeydd a Fferyllfeydd Cymunedol. O ran yr alergeddau, gyda'r canllawiau yn newid o ddydd i ddydd, mae'r gwaith papur yn newid yn barhaus o ganlyniad i'r gwrtharwyddion a dderbyniwyd.

Dyweddodd JGI, yng Nghyfarfod Blynyddol diweddar Anabledd Cymru, dyfynnwyd ffigur o 70% o ran y gyfradd farwolaethau o fewn y gymuned anabl, a chytunodd i anfon ffynhonnell y wybodaeth hon ymlaen i FJ a fydd yn ei rhannu â chydweithwyr o fewn BIPBC.

Nododd sawl un o aelodau'r BPRh bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i'r boblogaeth, ac roedd FJ yn cytuno y dylai taflen o Gwestiynau a Ofynnir yn Aml a'u hatebion fod ar gael i'w cylchredeg yn eang.

Diolchodd TO i FJ a'i thîm am yr holl waith ardderchog a wnaed ar y rhaglen frechu.

Camau Gweithredu

- JGI i anfon gwybodaeth o Gyfarfod Blynyddol Anabledd Cymru at FJ
- Cwestiynau a Ofynnir yn aml i'w cylchredeg yn eang - FJ

5 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Codau a Chanllawiau: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Codau a Chanllawiau: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)

5.1 Aelodau Cyfetholedig – Diweddariad o gyfarfod rhwng Cadeirydd y BPRh ac Aelodau Cyfetholedig y BPRh - 11.09.2020

Cyflwynodd BJE a TO ddiweddariad yn dilyn y drafodaeth yn y BPRh ar 7.8.2020, eitem agenda 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Codau a Chanllawiau diweddaredig: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)', nodwyd cam gweithredu i barhau'r drafodaeth a'r opsiynau o ran aelodau cyfetholedig BPRhGC y tu allan i'r BPRh, gyda phapur canlyniadau i'w gyflwyno i gyfarfod o'r BPRh yn y dyfodol.

Eglurodd BJE, yn dilyn trafodaeth, mai'r canlyniad a'r penderfyniad yn y cyfarfod ar 11.09.2020 oedd Opsiwn 5: Bydd aelod cyfetholedig yn parhau i fynychu BPRhGC.

5.2 Cylch Gorchwyl Diweddaredig BPRhGC i'w gytuno

Derbyniodd y bwrdd y drafft terfynol o'r Cylch Gorchwyl a oedd yn ymgorffori'r newidiadau a wnaed yn dilyn trafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol ac mewn cyfarfod o'r aelodau cyfetholedig. Mae'r drafft terfynol o'r Cylch Gorchwyl hefyd yn ystyried gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Codau a Chanllawiau: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth).

Hysbysodd BJE y cyfarfod bod 2 adran o'r ddogfen wedi'u hamlygu ar gyfer eu cytuno:

1. Gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyfethol unigolion eraill i fod yn aelodau o'r bwrdd fel y bo'n briodol. Mae'r rheoliadau'n cyfeirio at leiafswm aelodaeth y byrddau ond mae nifer y cynrychiolwyr ac ystod y bobl sy'n rhan ohonynt yn faterion i'w penderfynu ar lefel leol. Bydd yr aelodau cyfetholedig yn cael eu hadolygu bob 2 flynedd.
2. Bydd y cynrychiolydd a ganlyn yn cael ei ddewis i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol trwy Ddatganiad o Ddiddordeb a phroses ddethol gan gymheiriaid:

Unigolyn sy'n cynrychioli diddordebau darparwyr gofal yn yr ardal a gynhwysir o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ar wahân i'r cytundeb uchod, ystyrir bod y Cylch Gorchwyl yn ddigonol i ddiogelu gwaith y Bwrdd.

Roedd MWim yn profi anawsterau technegol ar y pryd ac nid oedd modd ymateb ar lafar, fodd bynnag, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn yn ysgrifenedig drwy'r cyfleuster sgwrsio ar y sgrin yn ystod y cyfarfod:

Rwyf wedi bod ar y BPRh ers y dechrau. Gan fod Fforwm Gofal Cymru yn cynrychioli cyfran sylweddol o aelodau ar draws Gogledd Cymru, ac fel yr unig weithiwr yng Ngogledd Cymru, nid yw hynny'n ymddangos yn afresymol ar sail barhaus.

Dyweddodd Y Cyng. JL y dylid newid y tymor ar gyfer Aelodau Etholedig i Fai 2022.

Nododd ME bod gan Gyngor Gwynedd 2 Aelod Cabinet Etholedig, sy'n rhannu portffolio oedolion a phlant. Oherwydd pwysigrwydd sicrhau bod yr unigolyn iawn yn mynychu, yn dibynnu ar yr agenda, mae'r Cyng. Dilwyn Morgan (a chanddo gyfrifoldebau ar y Cabinet dros Gefnogi Plant a Theuluoedd) yn bresennol heddiw yn lle'r Cyng. Dafydd Meurig (Aelod Cabinet dros Oedolion a'r Gymuned). Hysbysodd ME y Cadeirydd hefyd y bydd Y Cyng. DMO yn dirprwyo ar ran Y Cyng. DMe ar y BPRh o bryd i'w gilydd.

Nodwyd y cynhwysir y canlynol o fewn y Gylch Gorchwyl:

Caniateir i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol anfon cynrychiolydd enwebedig i fynychu yn eu lle, fodd bynnag, gofynnir i'r cynrychiolydd hwn cael ei friffio'n llawn ynghylch gwaith y Bwrdd. Pan fydd cynrychiolydd enwebedig yn mynychu bydd rhaid hysbysu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

Roedd BPRhGC yn cytuno i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a fydd yn destun trafodaeth rhwng BJE a chynrychiolydd y sector Darparwyr.

5.3 Dogfen Derfynol Ffocws a Blaenoriaethau i'w gytuno

Cyflwynodd BJE y fersiwn terfynol o'r papur Ffocws a Blaenoriaethau, gan gynnwys paragraff ychwanegol ar Covid, fel y gofynnwyd amdano'n flaenorol gan y Bwrdd. Mae'r ddogfen yn fodd o atgoffa am y gwaith a gwblhawyd gan y Bwrdd ynghyd â'r gwaith y mae angen ei wneud yn y dyfodol, yr oedd pawb yn cytuno y bydd yn wahanol iawn.

Cytunodd BPRhGC i gymeradwyo'r fersiwn terfynol o'r ddogfen Ffocws a Blaenoriaethau. Bydd y fersiwn terfynol ar gael i'w gylchredeg ac ar y wefan gydweithredol.

Camau Gweithredu

- Diweddaru'r Cylch Gorchwyl

6 AHW – Rhaglenni Trawsnewid 2021/2022 Dyroniad Grant LIC

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad gan BJE ar ddyroniad grant LIC o dan Raglenni Trawsnewid 2021/2022.

Eglurodd BJE bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r rhaglenni trawsnewid presennol gyflwyno achos busnes i ddangos y cynnydd hyd yma, faint o gyllid a fynnir ynghyd â'i ddefnydd arfaethedig ar gyfer 2021/22. Cyflwynwyd adroddiadau BPRhGC i LIC, gan ofyn am gyfanswm cyllid o £11M ar draws y 4 rhaglen.

Mewn ymateb, cynigiodd LIC ddyroniad petrus o £4.6M, sy'n golygu bod bwch sylweddol o ran cyllid, ac ysgrifennodd Aelodau Etholedig y BPRh at y Gweinidog i nodi eu siomedigaeth dros y dyroniad dangosol.

Trefnwyd cyfarfod rhwng LIC, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol Gogledd Cymru a Noddwyr y Rhaglenni i drafod yr amheuon a'r cwestiynau a godwyd mewn perthynas â'r 4 achos busnes. Trafodwyd hefyd uchafswm y cyllid ynghyd â'r cyfanswm mwyaf ffafriol a'r isafswm fyddai eu hangen i symud ymlaen gyda phob rhaglen. Canlyniad y cyfarfod hwnnw oedd y dylai BPRhGC baratoi un achos busnes ar gyfer 2021/2022 gan ddod ag elfennau'r pedair rhaglen bresennol ynghyd er mwyn bwrw ymlaen â hwy fel un rhaglen, gydag un grant yn cael ei ddyrannu i'r rhanbarth ar gyfer y cyfanswm.

Yn dilyn llawer o waith a chyd-drafod, mae Gogledd Cymru wedi negydu cyfanswm cyllid o £6.7M ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar gadarnhau'r gweithgareddau, y canlyniadau a'r dadansoddiad o'r gwariant, y gofynion o ran staff a'r llinell amser ar gyfer ei gyflawni yn 2021-22, a fynnir gan LIC erbyn diwedd Rhagfyr.

Diolchodd TO i BJE am y gwaith aruthrol a wnaed i ddiogelu'r cyllid ychwanegol i sicrhau cyfanswm o £6.7M er mwyn cael y dyroniad gorau bosibl ar gyfer y rhanbarth.

Roedd NA, Noddwr y Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid AD hefyd yn cydnabod y gwaith aruthrol a wnaed gan BJE i ddiogelu dyraniad Gogledd Cymru. Nodwyd hefyd y gefnogaeth i flaenoriaethu'r Rhaglen Plant a Phobl Ifanc gyda chyllid o £3.8M, bydd y rhaglenni Trawsnewid Anableddau Dysgu a Thrawsnewid Iechyd Meddwl yn derbyn £750K yr un a dyrannwyd £1.28 i'r rhaglen CST gyda gweddill y cyllid ar gyfer gwerthuso.

Nododd NS, Noddwr y Rhaglen Plant a Phobl Ifanc bod y rhanbarth yn uchelgeisiol iawn gyda'r cais cyntaf am gyllid trawsnewid ac mae pawb yn dal i fod yn ymroddedig i bob un o'r 4 maes blaenoriaeth. Yn anffodus, er eu bod wedi trafod cael swm llawer uwch, roedd yn dal i fod yn annigonol i gyflawni gofynion sylfaenol bob un o'r 4 rhaglen, oedd yn golygu bod angen archwilio amryw ddulliau o rannu a dosbarthu'r dyraniad.

Nododd TO, Noddwr y Rhaglen Gyda'n Gilydd Dros Iechyd Meddwl, hefyd ei bod yn cefnogi'r cynnig ynghyd â phwysigrwydd gwaith ataliol cynnar, gan weithio fel un rhaglen i wneud y gorau o'r cyllid er mwyn diogelu dyfodol gwell i bawb.

Eglurodd BJE y bydd y camau nesaf yn canolbwyntio ar fanylion yr achos busnes unigol, ynghyd â chadarnhau canlyniadau'r gweithgareddau, y dadansoddiad o'r gwariant, y staff a fynir ynghyd â'r llinell amser ar gyfer cyflawni gweithgareddau. Mae llawer o'r wybodaeth hon ar gael eisoes, a bydd Noddwyr y Rhaglenni yn bwrw ymlaen â chwblhau'r wybodaeth hon yn gyflym, gan y bydd angen cyflwyno'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Rhagfyr 2020.

Roedd holl aelodau BPRhGC yn cytuno â'r cynnig ac yn ei gefnogi ar gyfer ariannu gwahanol elfennau rhaglen 2021/22.

Dywedodd yr aelodau hefyd bod angen cadw mewn cof sut y bydd y gwaith trawsnewid yn cael ei ymgorffori o fewn cyllidebau craidd i'r dyfodol.

Holodd JGal, o ran nifer o flaenoriaethau a ganfuwyd sydd heb eu cyllido, beth ydym am ei wneud ynghylch y blaenoriaethau hyn?

Atebodd NS, pan oedd y BPRh yn penderfynu ar ei flaenoriaethau, roedd y gwaith hefyd yn parhau o fewn pob maes arall, h.y. Gofalwyr. Y meysydd blaenoriaeth a ddewiswyd oedd y rheiny lle gellid cael yr effaith fwyaf. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn fonws, a bydd y gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar yr holl feysydd hyn ar ôl i'r cyllid trawsnewid ddod i ben.

Dywedodd BJE hefyd bod diweddariad ar y ffordd a bydd yn cael ei anfon ymlaen yn dilyn cytundeb BPRhGC heddiw. Bydd diweddariadau cyfathrebu rheolaidd yn dilyn yn y Flwyddyn Newydd i sicrhau bod pawb yn cael eu diweddarau ynghylch unrhyw gynnydd.

Camau Gweithredu

- Rhennir y rhaglen ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod nesaf y BPRh

7 Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill gan yr aelodau.

8 Cafodd y dogfennau a ganlyn eu cynnwys er gwybodaeth:

- Cyllid ar gyfer darparu llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)
- Cronfa Rhaglen Trawsnewid Llywodraeth Cymru 2021-22 Hybiau Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella: Canllawiau

9 Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Gwener 15fed Ionawr 2021 10:30 – 12:30 yp